# DATGANIAD I GYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD AC YNYS MÔN

## ARCHWILIAD

### CYFLWYNIAD GWYBODAETH YCHWANEGOL GAN GYFEILLION BORTH Y GEST AR GYFER GWRANDAWIAD SESIWN CHWECH - YR AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG.

1. Mae Borth-y-Gest yn bentref hynod o hardd sy'n denu twristiaid i ymweld ag Eifionydd   Mae'r amgylchedd naturiol yn derbyn gwarchodaeth 'nominal' drwy amryfal Orchmynion Diogelu Coed, mewn dwy ardal o goetiroedd hynafol gyda sawl math o goed derw sydd wedi eu 'dynodi' yn warchodfeydd natur leol.  Mae'r ardal yn manteisio o gael ei hadnabod fel rhan, ac yn ffinio â Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Aberglaslyn.
2. Rhestrwyd yr ardal hefyd fel Ymgeisydd safle bywyd gwyllt, yn ôl y diffiniadau sydd wedi eu cynnwys yn nogfennau dewisol Safleoedd Bywyd Gwyllt Cyngor Gwynedd - Canllawiau Cynllunio Atodol.
3. Defnyddiwyd y dywediad gwarchodaeth 'nominal' gan y bu tueddiad cynyddol i eiddo yn y pentref i gael ei brynu gan fewnfudwyr sydd wedi cyflwyno ceisiadau cynllunio i ddatblygu rhannau o dir ddaw o dan y Gorchymyn Cadw Coed, ble mae'r tir mewn eiddo preifat ac yn estyniad i'r gwarchodfeydd natur lleol ac yn y safle ymgeisydd lleol ardal bywyd gwyllt.
4. Er bod ceisiadau datblygu o'r fath yn gyffredinol wedi eu gwrthod gan Gyngor Gwynedd, fel yr awdurdod cynllunio lleol, mae ymgeiswyr yn gynyddol yn mynd a'u ceisiadau i apêl gyda chanlyniadau cymysg.
5. Yr hyn sy'n gyson yn yr apeliadau yw barn yr Arolygwyr fod gwarchodaeth 'nominal' yn 'anstatudol'.    Mae'r graddau y rhoddir ystyriaeth yn arbennig i 'warchodfeydd natur lleol' a'r 'safle ymgeisydd bywyd gwyllt' yn aneglur ac ar bob achlysur mae'n ymddangos i fod yn ddewisol ac yn ddadleuol.  **Nid yw hyn yn unol ag ysbryd TAN 5.**
6. Mae'n ddadleuol os glynir at yr egwyddorion sydd wedi eu corffori ym mholisi strategol PS16, yn y drafftiau presennol o bolisïau manwl AMG2 i AMG5.
7. Nid yw'r datganiad yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd sef

   > Yn ogystal â'r safleoedd Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol hyn mae safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol yn y sir, sydd â lefel is o warchodaeth, ond mae eu dynodiad yn eu clustnodi fel rhai pwysig ar gyfer cadwraeth natur, ac yn aml maent yn lleoliadau ar gyfer addysg amgylcheddol.

   **yn gadarn.**  Nid yw'n diffinio beth yw'r 'lefel isaf o warchodaeth' ac os gadewir hyn heb ei ddiffinio mae'r un ansicrwydd sy'n nodwedd o rai apeliadau yn parhau.   Dylid rhoi diffiniad gwell yn atodol i AMG5.  Mae'r datganiad yn AMG5 sef "fe fydd yn bosibl defnyddio amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio er mwyn diogelu gwerth bioamrywiaeth a daearegol y safle" wedi profi i fod yn ddatganiad gwag yn ymarferol.

8. **Oherwydd hyn fe ystyriwn nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn gadarn.**  Mae peidio â chynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol yn Nhabl 23 yn gadael ein amgylchedd naturiol ym Morth-y-gest heb ei warchod yn ddigonol.    Yn ein barn ni, ni ellid gwella llawer ar ei gadernid drwy ymestyn Tabl 23 i gynnwys cofnod i 'warchodfa natur lleol a safleoedd ymgeisydd bywyd gwyllt', neu os mai'r farn yw y dylid gwahaniaethu'r lefel gwarchodaeth rhwng gwahanol safleoedd ble

mae dynodiad gwarchodfa natur yn gymwys, dylai nodi yn glir yr ardaloedd gwarchodfa natur lleol ble y byddai'r lefel gwarchod mwy sicr yn gymwys iddynt.

9. Yn ein barn ni, yr ateb i gwestiwn 6 yr Arolygydd yw 'NA' pendant. Credwn fod Gwarchodfeydd Natur Borth-y-gest ym Mhen-y-banc a Pharc-y-Borth angen gwell gwarchodaeth na'r hyn a gynigir gan y Cynllun cyfredol. Mae'r ddau yn effeithio yn sylweddol ar olygfa Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Aberglaslyn a'r Ardal Tirwedd Arbennig a restrwyd fel Rhif 2 yn Nhabl 24 - Porthmadog a Bae Tremadog. Felly, fe ystyriwn y dylai'r warchodaeth a roddir yn AMG1 sef:

   > "Bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i raddfa a natur y datblygiad gan sicrhau na fyddai'n cael effaith andwyol ar y dirwedd. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'n rhaid cael y datblygiad ac y gallai arwain i ardrawiad arwyddocaol ar y dirwedd, bydd rhaid darparu mesurau lliniaru a digolledu priodol".

   fod yn gymwys i 'warchodfeydd natur lleol' ym Morth-y-Gest.

10. Gwahoddwn y Cyngor a'r Arolygwyr i newid y Cynllun arfaethedig er mwyn rhoi'r warchodaeth a haeddir i harddwch naturiol Borth-y-Gest.

Tom Brooks

Ar ran Cyfeillion Borth-y-Gest (3026)

14 Awst 2016